WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu: Addas ar gyfer y dyfodol? – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 569A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer ar gyfer ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru drwy swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Yn rhan o'r tîm a gyflawnodd y gwaith hwn roedd Allison Rees, Rachel Harries a Dave Wilson. Non Jenkins oedd rheolwr y rhaglen, o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'w swyddogaeth graffu ac mae ei ymrwymiad i wella yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i weithio'n wahanol er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol.


Adroddiad cryno 4

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'w swyddogaeth graffu ac mae ei ymrwymiad i wella yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i weithio'n wahanol er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei amgylchedd craffu ac mae mewn sefyllfa dda i wynebu heriau'r dyfodol 6

Mae gwaith cynllunio gweithgarwch craffu yn gwella, ac mae lle i gryfhau arfer craffu ymhellach drwy gwestiynu'n fwy effeithiol a thrwy ystyried rhagor o ffyrdd gwahanol o weithio 8

Mae'r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn rheolaidd ac yn archwilio sut i werthuso ei heffaith yn well 11

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ym maes llywodraeth leol 13

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad Astudiaeth Wella Genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014) 15

# Adroddiad Cryno

## Crynodeb

1 Roedd yr adolygiad hwn yn archwilio gyda'r 22 cyngor yng Nghymru pa mor ‘addas ar gyfer y dyfodol’ yw eu swyddogaethau craffu. Buom yn ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i heriau cyfredol, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mewn perthynas â'u gweithgarwch craffu, a sut mae cynghorau'n dechrau mynd ati i graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, megis pwysedd parhaus ar gyllid cyhoeddus a’r posibilrwydd o symud tuag at fwy o gydweithio ar lefel ranbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom hefyd yn adolygu cynnydd cynghorau o ran rhoi sylw i'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Aethom hefyd ar drywydd unrhyw gynigion ar gyfer gwella sy’n berthnasol i graffu rydym wedi’u cyhoeddi mewn adroddiadau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys ein hadolygiadau thematig o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Pennu Newidiadau Arwyddocaol i Wasanaethau yn 2016-17.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- canfod dulliau o wreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu fel sail ar gyfer rhannu arferion a llywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau cyfredol ac yn y dyfodol;
- helpu i wreiddio craffu effeithiol gan aelodau etholedig o ddechrau’r cylch etholiadol newydd; a
- gweld pa mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu blaenorol.

4 Fel sylfaen i’n canfyddiadau, bu i ni seilio methodoleg ein hadolygiad ar y Canlyniadau a'r Nodweddion ar gyfer Trosolwg a Chraffu Effeithiol ym maes Llywodraeth Leol (Atodiad 1). Cafodd y rhain eu datblygu a chytunwyd arnynt gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn sgil ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol, 'Craffu Da? Cwestiwn Da'.

5 Ym mis Tachwedd 2017, bu i ni gyfweld â nifer fechan o swyddogion allweddol, ynghyd â chynnal grwpiau ffocws gydag aelodau er mwyn deall eu safbwyntiau am drefniadau craffu presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac, yn arbennig, sut mae’r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r heriau a nodwyd uchod.

6 Aethom ati i arsylwi sampl o bwyllgorau craffu ac i adolygu dogfennau perthnasol y mae aelodau wedi’u cael i'w cynorthwyo gyda’u swyddogaeth graffu, megis adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Rydym wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'w swyddogaeth graffu, ac mae ei ymrwymiad i wella yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i weithio'n wahanol er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

a. mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei amgylchedd craffu ac mae mewn sefyllfa dda i wynebu heriau'r dyfodol;

b. mae gwaith cynllunio gweithgarwch craffu yn gwella, ac mae lle i gryfhau arfer craffu ymhellach gyda chwestiynu mwy effeithiol a rhagor o ystyriaeth i ffyrdd gwahanol o weithio; a

c. mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ac yn archwilio sut i werthuso ei heffaith yn well.

# Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn dangos ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu i'w roi mewn sefyllfa well i fodloni'r heriau presennol a rhai'r dyfodol.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| Gellir cryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy:<br>C1 Wella darpariaeth cyfleoedd hyfforddi a datblygu i aelodau i:<br>• ddarparu rhagor o hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i aelodau pwyllgorau craffu wella eu dealltwriaeth a'u hystyriaeth o'r Ddeddf wrth gynnal gweithgarwch craffu;<br>• deall anghenion datblygu unigol aelodau a chynnal hyfforddiant sgiliau craffu perthnasol; a<br>• datblygu sgiliau cwestiynu aelodau i wella eu dull o gwestiynu a herio yn adeiladol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'w swyddogaeth graffu ac mae ei ymrwymiad i wella yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i weithio'n wahanol er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol

### Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei amgylchedd craffu ac mae mewn sefyllfa dda i wynebu heriau'r dyfodol

9 Mae llawlyfr Cymorth Pwyllgorau Craffu y Cyngor yn diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau craffu aelodau a swyddogion yn glir. Mae Llawlyfr Gweithredol y Cyngor hefyd yn egluro cyfrifoldebau aelodau Gweithredol o ran gweithio gydag aelodau craffu. Yn ystod ein gwaith maes, roedd aelodau a swyddogion yn gallu egluro eu swyddogaeth a'u cyfraniad yng nghyd-destun y swyddogaeth graffu.

10 Mae'r Weithrediaeth yn gwerthfawrogi'r cyfraniad mae craffu'n ei wneud wrth wneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor wedi cryfhau trefniadau ar gyfer craffu cyn gwneud y gwneir penderfyniadau. Mae pwyllgorau craffu'n cynnal gwaith craffu'n rheolaidd cyn penderfyniadau. Mae'r Weithrediaeth yn agored i newidiadau cadarnhaol i'r swyddogaeth graffu a all wella ei heffeithiolrwydd. Adeg ein hadolygiad ym mis Tachwedd 2017, roedd yn amlwg y caiff gwaith craffu da ei werthfawrogi, a soniodd swyddogion ac aelodau bod dechrau addawol i'r weinyddiaeth newydd.

11 Mae llawer o aelodau newydd yn 'tyfu' i'w swyddi. Cynhaliom adolygiad ym mis Tachwedd 2017, a oedd yn gymharol gynnar yn y cylch etholiadol newydd yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Gwelsom aelodau newydd o bwyllgorau craffu'n magu hyder i ofyn am eglurhad ynghylch gwybodaeth a ddarparwyd iddynt. Roedd swyddogion ac aelodau'n ymddangos yn hyderus y bydd aelodau newydd yn dod yn fwy hyderus dros amser drwy gynyddu eu hymwneud â'u swyddogaeth graffu.

12 Cyfres gynhwysfawr o sesiynau briffio i aelodau yw rhaglen Datblygu a Hyfforddi Aelodau y Cyngor (sy'n ymgorffori rhaglen gynefino i aelodau) i wella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau o'u swyddogaeth fel aelod etholedig, gan gynnwys materion perthnasol ar gyfer pob pwyllgor craffu. Darparwyd 58 o sesiynau hyd at fis Chwefror 2018. Roedd sesiynau briffio'n cynnwys diogelu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gwastraff ac ailgylchu, Diwygio Lles, Rhianta Corfforaethol, a throsolwg a chyd-destun ariannol, a sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor. Fodd bynnag, mae diffyg wedi bod yn y cyfleoedd datblygu sgiliau craffu penodol a gynigir i aelodau. Comisiynodd y Cyngor hyfforddiant allanol i aelodau ar 'graffu effeithiol' a 'sgiliau cadeirio ar gyfer cadeiryddion ac is-

gadeiryddion craffu', ond nid yw'r Cyngor wedi gofyn i aelodau unigol am eu hanghenion hyfforddi penodol eto. Yn 2017, roedd y Cyngor yn bwriadu cyflwyno proses Adolygu Datblygiad Personol ar gyfer aelodau etholedig, ond cytunodd arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y pryd i ohirio cyflwyno'r broses hon. Ym mis Mai 2018, derbyniodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar broses Adolygu Datblygiad Personol aelodau etholedig a fframwaith cymwyseddau i aelodau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i aelodau fyfyrio ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hymddygiad i gynorthwyo â'u datblygiad personol penodol ac i helpu i gynorthwyo â'u heffeithiolrwydd fel aelod craffu.

13 Mae'r Cyngor yn dechrau ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei drefniadau craffu. Mae'r Cyngor wedi hyfforddi aelodau ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum ffordd o weithio' cysylltiedig fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[1]. Mae'r Cyngor wedi diwygio templed adroddiadau swyddogion, ac wedi hyfforddi swyddogion ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w helpu i ystyried y pum ffordd o weithio wrth baratoi adroddiadau. Canfuom fod aelodau'n ymwybodol bod gwybodaeth am y pum ffordd o weithio wedi'i chynnwys mewn adroddiadau, ond nid ydynt yn craffu nac yn herio'r wybodaeth hon ar hyn o bryd wrth ystyried materion, adroddiadau nac wrth wneud argymhellion. Dywedodd swyddogion wrthym nad yw'r wybodaeth a ddarperir mewn adroddiadau'n nodi'n glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, drwy ddisgrifio ei pherthnasedd i'r mater a drafodir. Mae gwella ansawdd gwybodaeth mewn adroddiadau am y pum ffordd o weithio yn parhau i fod ar waith.

14 Gallai'r Cyngor elwa ar adolygu ei gymorth craffu er mwyn gallu wynebu heriau yn y dyfodol. Mae gan y Cyngor un swyddog cymorth craffu pwrpasol. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr Perfformiad Corfforaethol hefyd yn darparu cymorth ychwanegol i aelodau craffu a phwyllgorau craffu. Yn ystod y gwaith maes, disgrifiodd swyddogion ac aelodau rhai heriau posib y bydd y swyddogaeth graffu yn eu hwynebu yn y dyfodol, megis Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a rhagor o gydlynu gwasanaethau o bosib, a all arwain at fwy o angen am waith craffu rhanbarthol. Nid yw'r Cyngor wedi asesu effaith tebygol hyn ar ei swyddogaeth cymorth craffu, gan nad yw manylion y trefniadau hyn yn glir eto. Bydd angen y profiad a'r wybodaeth gywir ar aelodau i graffu'n effeithiol ar lefel ranbarthol, gan sicrhau bod gan aelodau berchnogaeth leol ar faterion rhanbarthol. Yn ogystal â'r cymorth a ddarperir gan y tîm cymorth craffu, mae gan y Cyngor swyddogion penodedig mewn gwahanol feysydd gwasanaeth i helpu aelodau i gael mynediad at wybodaeth a staff fel rhan o'u gwaith craffu.

15 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i wella gwaith craffu ar y broses o osod cyllideb. Nododd yr aelodau bod llymder parhaus yn her sylweddol. Ym mis Medi 2016, i sicrhau y bydd gwaith ceraffu yn rhan o'r gwaith o ddeall ac argymell

[1] Integreiddio, Atal, Hirdymor, Cydweithio a Chyfranogiad

dyraniadau cyllideb yn y dyfodol, sefydlwyd pwyllgor craffu ar y cyd yn arbennig ar gyfer monitro cyllidebau. Mae'r holl aelodau craffu nawr yn derbyn adroddiadau monitro cyllideb refeniw a chyfalaf, sy'n cynnwys defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol ac a glustnodwyd, a chynigion i arbed ar gyllidebau. Mae gan yr aelodau gyfle i holi ac i herio materion sy'n codi yn yr adroddiadau hyn, ond gwelsom yn y cyfarfod ym mis Tachwedd 2017 mai prin oedd yr herio a'r cwestiynau a holwyd. Byddai hyfforddiant pwrpasol i aelodau ar sut i graffu ar wybodaeth ariannol o fudd i'r Cyngor wrth sicrhau bod aelodau craffu yn dod yn fwy gwybodus a hyderus i ofyn cwestiynau perthnasol.

16 Mae adroddiadau'r pwyllgor craffu yn egluro'r materion yn glir. Mae'r adroddiadau i aelodau'n glir, yn cynnwys gwahanol adrannau ar gefndir, tystiolaeth/gwybodaeth am berfformiad, goblygiadau risg, goblygiadau ariannol, goblygiadau staffio a'r gweithlu, opsiynau i'w hystyried, asesiadau effaith yn erbyn cynigion, cyfraniad at amcanion llesiant cenedlaethol, ac ystyriaeth o bum ffordd o weithio, canlyniadau ac argymhellion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

17 Mae'r aelodau craffu yn rhan weithgar o drefniadau gwella'r Cyngor. Er enghraifft, cynhelir cyfarfodydd bob yn ail fis rhwng yr aelodau Gweithredol a Chadeirydd ac Is-gadeirydd perthnasol pob pwyllgor craffu. Mae hyn yn galluogi trafodaeth ar faterion sy'n dod i'r amlwg a allai ddylanwadu ar y Weithrediaeth ac ar flaenraglenni gwaith craffu.

18 Mae technoleg i gynorthwyo'r swyddogaeth graffu yn gwella'n araf yn dilyn anfodlonrwydd aelodau â darpariaeth wael hyd yn hyn. Mynegodd aelodau craffu bryderon ynghylch ansawdd y Dechnoleg Gwybodaeth i'w cynorthwyo â'u swydd fel aelod etholedig. Dywedodd aelodau wrthym fod y cysylltiad di-wifr yn y Ganolfan Ddinesig yn wael, ac nad oedd ymdrechion blaenorol i symud tuag at gyfarfodydd craffu di-bapur wedi datblygu.
Cododd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y mater hwn yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2017. Ym mis Ionawr 2018, cymeradwyodd y Cyngor bolisi yn nodi y bydd pob aelod yn derbyn gliniadur a fydd yn eu galluogi i gysylltu â rhwydwaith di-wifr y Cyngor yn unrhyw un o'i adeiladau.

## Mae gwaith cynllunio gweithgarwch craffu yn gwella, ac mae lle i gryfhau arfer craffu ymhellach gyda chwestiynu mwy effeithiol a rhagor o ystyriaeth i ffyrdd gwahanol o weithio

19 Ym mis Ebrill 2016, cyhoeddom ein hadroddiad i'r Cyngor yn dilyn 'Adolygiad llywodraethu, gyda ffocws ar graffu'. Daethom i'r casgliad bod 'y Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â chraffu mewn perthynas ag argymhelliad statudol a gyhoeddwyd yn 2013, ac roedd yn gweithredu ei Gynllun Gweithredu Trefniadau Craffu. Fodd bynnag, mae rhagor o waith y gellid ei wneud, er mwyn sicrhau bod craffu'n fwy effeithiol a chyson yn ymarferol.'

20 Adeg ein gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn ym mis Tachwedd 2017, nododd swyddogion ac aelodau a ailetholwyd ragor o welliant i'r swyddogaeth graffu ers

adolygiad 2016. Yn rhan o'r cynnydd mae trefniadau newydd i gynorthwyo gwaith cynllunio a gweithredu craffu ymhellach. Er bod y trefniadau hyn yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr holl bwyllgorau, mae rhan sylweddol o'r gwaith craffu yn parhau i gael ei gynnal drwy'r system bwyllgor draddodiadol.

21 Mae pob pwyllgor craffu yn gosod blaenraglen waith flynyddol sy'n gysylltiedig â'r flaenraglen waith Weithredol. Caiff agendâu cyfarfodydd pwyllgor craffu eu blaenoriaethu, ac mae'r Cyngor yn annog pwyllgorau craffu i gynnwys uchafswm o dair eitem ar bob agenda. Mae canllawiau ar gael i aelodau yn Llawlyfr Cymorth y Pwyllgorau Craffu ar flaenoriaethu eitemau agendâu ar gyfer pwyllgorau craffu:

- blaenoriaethau corfforaethol
- meysydd gwasanaeth y nodwyd eu bod yn tanberfformio
- unrhyw fater sy'n destun polisi newydd neu newid mewn polisi
- meysydd i'w gwella fel y'u nodwyd gan reoleiddwyr allanol
- unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg o achos deddfwriaeth newydd

22 Mae amserlenni clir gan y pwyllgorau craffu unigol ac ym mlaenraglenni gwaith y Weithrediaeth sy'n amlinellu pryd bydd adroddiadau a ystyriwyd gan y pwyllgorau craffu yn cael eu hadolygu gan y Weithrediaeth ac, os yw'n berthnasol, pryd bydd adroddiadau'n cael eu hystyried gan y Cyngor llawn.

23 Caiff blaenraglenni gwaith blynyddol eu cynhyrchu ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Yn ogystal â nodi'r materion i'w cynnwys yn ei flaenraglen waith ei hun mae pob pwyllgor yn ystyried a oes angen grwpiau Gorchwyl a Gorffen neu sesiynau briffio i aelodau yn lle derbyn adroddiadau mewn cyfarfodydd pwyllgor. Mae cyfleoedd i adolygu blaenraglenni gwaith ym mhob cyfarfod paratoi agenda, cyfarfod pwyllgor craffu, gwerthusiad ar ôl cyfarfod a chyfarfod bob yn ail fis rhwng y Cadeiryddion, Is-gadeiryddion a'r Aelod Gweithredol perthnasol.

24 Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau y caiff agendâu eu cynllunio'n effeithiol. Caiff cyfarfodydd paratoi agendâu eu cynnal bob chwe wythnos cyn pob cyfarfod pwyllgor craffu. Mae awduron adroddiadau, yr Is-gadeirydd, y Cadeirydd a'r swyddog cymorth craffu yn mynychu i drafod yr agenda, blaenoriaethu eitemau a chanlyniadau bwriadedig pob eitem agenda, ynghyd â nodi a oes angen gwahodd unrhyw dystion arbenigol. Mae cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Ymddiriedolaeth Hamdden wedi mynychu pwyllgorau craffu.

25 Mae gan aelodau gyfle i baratoi ar gyfer cyfarfodydd craffu. Mae pob pwyllgor craffu yn cynnal rhag-gyfarfod hanner awr cyn y cyfarfod craffu, a chaiff holl aelodau'r pwyllgor eu gwahodd i drafod llwybrau cwestiynu, argymhellion posib, diwygiadau i argymhellion a chanlyniadau bwriadedig. Yn syth ar ôl pob cyfarfod craffu, mae'n beth cadarnhaol bod aelodau'n cynnal gwerthusiad ar ei ôl. Er bod strwythur i'r rhag-gyfarfod, lle mae'r pwyllgor yn trafod pob eitem agenda, nid oes digon o'r strwythur hwn yn y sesiwn werthuso ar ôl y cyfarfod. Arsylwom werthusiad ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar 27 Tachwedd 2017. Roedd yr aelodau'n canolbwyntio ar gyflwyniad adroddiadau, a

gwnaed arsylwadau da ar sut gellir gwella gwaith craffu. Gallai'r gwerthusiad ar ôl y cyfarfod fod yn fwy effeithiol fyth drwy gyflwyno strwythur i sicrhau gwerthusiad mwy trylwyr ar gyfer pob eitem ar yr agenda, p'un a gyflawnwyd y canlyniadau bwriadedig, ynghyd â hunanwerthusiad gan aelodau o'u perfformiad ac a wnaethant graffu a herio'n drylwyr ar gyfer pob eitem ar yr agenda.

26 Ar hyn o bryd, nid yw'r cyhoedd yn ymwneud â'r broses graffu, ac mae'r Cyngor wedi ei chael yn anodd hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd yn y gwaith craffu. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi gweddarlledu rhai cyfarfodydd craffu, ond nid oedd hyn yn effeithiol wrth geisio ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae swyddogion yn parhau i fod yn ymroddedig i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd. Yn dilyn yr adroddiad 'Adolygiad llywodraethu, gyda ffocws ar graffu' a gyhoeddom yn 2016, bu i'r Cyngor ymrwymo yn ei Gynllun Gweithredu Craffu i wella ymgysylltiad â'r cyhoedd drwy:

a. weithio gydag aelodau i nodi meysydd o ddiddordeb o'r blaenraglenni gwaith;
b. sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar y wefan; a
c. defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith craffu i'r cyhoedd.

27 Nid yw'r Cyngor yn gwella cyfranogiad y cyhoedd ym maes craffu eto, fel y bwriadwyd.
Mae Cynllun Gweithredu Craffu'r Cyngor yn cynnwys meini prawf llwyddo wrth werthuso effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes craffu. Dyma'r ddau brif faen prawf llwyddo:

a. aelodau o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu; a
b. nifer o eitemau o ddiddordeb yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

28 Mae'r meini prawf llwyddo hyn yn dibynnu ar y cyhoedd i ymwneud â'r Cyngor yn rhagweithiol, er enghraifft drwy fynychu cyfarfodydd craffu a thrwy ddarllen cynnwys y Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn ceisio canfod ffyrdd o wella ymgysylltiad â'r cyhoedd ym maes craffu, ac mae wedi sefydlu dangosyddion perfformiad i fesur llwyddiant. Er hynny, caiff gweithgarwch craffu ei gynnal yn bennaf o fewn cyfarfodydd ffurfiol pwyllgorau, sydd heb ddenu cyfranogiad y cyhoedd hyd yn hyn.

29 Arsylwom dri chyfarfod pwyllgor craffu fel rhan o'r adolygiad hwn:

a. Pwyllgor Craffu ar y Cyd ar gyfer Monitro Cyllideb – 6 Tachwedd 2017
b. Cyfarfod Trosolwg a Chraffu Corfforaethol – 27 Tachwedd 2017
c. Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – 11 Ionawr 2018

30 Roedd lefelau cwestiynu a chyfrannu'r aelodau'n amrywio yn y tri chyfarfod hwn. Er bod cwestiynau'r aelodau'n glir ac yn gryno gan mwyaf, roedd diffyg ffocws strategol iddynt yn aml, yn enwedig mewn perthynas â gwaith craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd cwestiynau'r aelodau i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 11 Ionawr 2018 yn canolbwyntio'n bennaf ar gyrff

cyhoeddus unigol yn hytrach na'r materion hynny y mae partneriaid yn ceisio eu datrys ar y cyd.

31 Pan fyddai aelodau'n gofyn cwestiynau yn y cyfarfodydd yr arsylwyd gennym, roedd uwch swyddogion yn ateb pob cwestiwn yn glir ac yn gryno. Roedd trafodaethau rhwng aelodau a swyddogion yn barchus ac yn anwleidyddol.

32 Mae canllawiau clir yn Llawlyfr Cymorth y Pwyllgor Gweithredol a Llawlyfr Cymorth y Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â phresenoldeb Aelodau Gweithredol yng nghyfarfodydd pwyllgorau craffu ac mae aelodau pwyllgorau craffu a'r Weithrediaeth yn deall y canllawiau.

## Mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ac yn archwilio sut i werthuso ei heffaith yn well

33 Mae'r Cyngor yn ymroddedig i werthuso effaith y swyddogaeth graffu ac i nodi'r ffyrdd o wneud hynny. Nid yw hyn wedi'i gyflawni eto, ond roedd swyddogion ac aelodau'n deall yr angen i wneud hynny.

34 Roedd yr 'Adolygiad llywodraethu, gyda ffocws ar graffu' a gyhoeddom ym mis Ebrill 2016 yn asesu cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael ag argymhellion statudol yr Archwilydd Cyffredinol i gryfhau craffu drwy:

a. fynd i'r afael â diffygion yn ansawdd adroddiadau i bwyllgorau craffu;

b. sicrhau y caiff swyddogion hyfforddiant priodol ar swyddogaeth graffu a chyflwyno gwybodaeth i aelodau; a

c. sicrhau bod y swyddogion cywir yn mynychu pwyllgorau craffu i gyflwyno adroddiadau ac ymdrin â chwestiynau aelodau.

35 Yn yr adroddiad a gyhoeddom ym mis Ebrill 2016, gwnaethom bum cynnig ar gyfer gwella. Fel ymateb i hyn, diweddarodd y Cyngor ei gynllun gweithredu trefniadau craffu i adlewyrchu'r cynigion hyn ar gyfer gwella ac i nodi camau gwella. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r camau hyn. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am fonitro cyflawniad a chynnydd y cynllun gweithredu hwn, a derbyniodd ddiweddariad ar yr ail chwarter ym mis Tachwedd 2017. Nododd yr adroddiad cynnydd bod un cam wedi'i gwblhau, pedwar cam wedi'u sgorio'n Wyrdd ac un cam yn Oren, yn ôl y system sgorio BRAG.[2]

36 Un o'r pum cynnig ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2016 oedd 'gwerthuso'r effaith sydd gan swyddogaeth graffu'r Cyngor ar wella canlyniadau i bobl leol'. Nododd y Cyngor bum cam gweithredu i fynd i'r afael â'r cynnig penodol hwn ar gyfer gwella. Ym mis Medi 2017, roedd dau gynnig heb eu dechrau ac roedd tri ar waith. Dywedodd Aelodau wrthym fod gwybodaeth mewn adroddiadau ynghylch risgiau a manteision wedi gwella, ond bod angen cryfhau'r

[2] BRAG: Mae'r Cyngor yn gweithredu system sgorio Glas, Coch, Oren a Gwyrdd, sydd â'r nod o ddangos cynnydd y Cyngor yn erbyn ei Gynllun Gweithredu Craffu

wybodaeth sy'n cefnogi'r effaith arfaethedig i ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu breswylwyr er mwyn helpu aelodau i wneud argymhellion mwy gwybodus.

37 Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu ei swyddogaeth graffu drwy Gynllun Gweithredu Craffu. Mae'r cynllun yn amlygu ac yn monitro gwelliannau i waith craffu a'i effeithiolrwydd. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r Cyngor wedi cwblhau adolygiad llawn o'r swyddogaeth graffu sy'n ystyried pa mor briodol yw'r strwythur pwyllgor craffu presennol a'r swyddogaeth graffu ehangach, a sut mae hyn yn ei baratoi i wynebu heriau yn y dyfodol.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion ar gyfer trosolwg a chraffu effeithiol ym maes llywodraeth leol

Arddangosyn 2: mae'r tabl yn dangos canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu lleol effeithiol

| Canlyniad<br>Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni? | Nodweddion<br>Sut beth fyddai hyn? Sut byddem yn ei adnabod? |
|---|---|
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br><br>'Gwasanaethau Gwell' | **Yr Amgylchedd**<br><br>i) Mae swyddogaeth werthfawr sydd wedi'i diffinio'n glir i graffu yn nhrefniadau gwella'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael cefnogaeth swyddogion pwrpasol sy'n gallu ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol a rhoi hyfforddiant, cyngor a gwasanaeth dadansoddi o ansawdd uchel i aelodau'r pwyllgor Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br><br>i) Mae ymchwiliadau trosolwg a chraffu yn anwleidyddol gyda methodoleg gadarn sy'n ymgorffori amrywiaeth eang o safbwyntiau a thystiolaeth.<br><br>**Effaith**<br><br>i) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio darparwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol sydd wedi'u hategu â thystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br><br>'Penderfyniadau gwell' | **Yr Amgylchedd**<br><br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod swyddogion craffu yn cael gwybodaeth o ansawdd uchel mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br><br>i) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei harwain gan yr aelodau sy'n arddel 'perchnogaeth' ar ei rhaglen waith, gan ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr a sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi blaenoriaeth i bryderon y gymuned a materion o risg a phwysigrwydd strategol.<br>ii) Mae rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith ym maes craffu. |

| Canlyniad<br>Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni? | Nodweddion<br>Sut beth fyddai hyn? Sut byddem yn ei adnabod? |
|---|---|
| | iii) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, maent yn cael eu cadeirio'n effeithiol ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosib.<br><br>**Effaith**<br><br>i) Mae aelodau anweithredol yn darparu gwasanaeth cadw cydbwysedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar lefel Weithredol.<br>ii) Mae'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi cyfrif drostynt eu hunain yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau portffolio. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol.**<br><br>'Ymgysylltu gwell' | **Yr Amgylchedd**<br><br>i) Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Gweithredol yn cydnabod bod craffu yn ddull pwysig y gall y cyngor ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br><br>i) Mae cyfathrebu effeithiol yn rhan o'r swyddogaeth graffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog pobl i ymwneud â hynny.<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn ffordd anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â gwrthdaro, tensiwn a materion gwleidyddol sensitif.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthynas dda ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br><br>i) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi 'llais' cymunedau a phobl leol ledled yr ardal i gael ei glywed fel rhan o brosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad Astudiaeth Wella Genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014)

Arddangosyn 3: argymhellion

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro swyddogaeth aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru. | Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun.: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales